# amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o Genesis

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Genesis 42: 1-26

*Mae'r stori yma'n sôn am:*
**Canlyniadau gwneud rhywbeth drwg.**

## Stori 1 Brodyr Joseff yn cyrraedd

Daeth y newyn, fel roedd Joseff wedi dweud. Roedd eisiau bwyd ar frodyr Joseff oedd yn byw yng Nghanaan. Clywson nhw fod digon o fwyd yn yr Aifft, felly aethon nhw yno i brynu bwyd. Arhosodd eu brawd bach, Benjamin, gartref gyda'i dad.

Yn yr Aifft, roedd Joseff yn nabod ei frodyr ond wnaethon nhw ddim o'u nabod ef.
Siaradodd Joseff yn gas â nhw. "Sbïwyr ydych chi," meddai.
"Nage," medden nhw. "Eisiau bwyd ar gyfer ein tad, ein brawd a'n teuluoedd ydyn ni."

Roedd Joseff yn esgus nad oedd yn eu credu. Dywedodd y byddai'n rhaid i un ohonyn nhw aros yn y carchar tra oedd y lleill yn mynd adref i nôl eu brawd bach, Benjamin. Roedd Joseff eisiau gwybod a oedden nhw'n dweud y gwir.

Roedd rhaid i Simeon fynd i'r carchar.

**Rhowch gylch o gwmpas enw'r brawd bach.**

**Joseff Benjamin Simeon**

Aeth y naw brawd arall adref. Rhoddodd Joseff sachau o fwyd iddynt ond doedden nhw ddim yn hapus. Roedden nhw'n meddwl eu bod yn cael eu cosbi am iddynt fod yn gas i Joseff flynyddoedd maith yn ôl!

Enw

DARLLENWCH
Genesis: 42 i 44

*Mae'r stori yma'n sôn am:*
**Cael ein cosbi am fod yn ddrwg.**

## Stori 2 Benjamin a Newyddion Drwg

Cyn hir, roedd rhaid i frodyr Joseff fynd yn ôl i'r Aifft i gael rhagor o fwyd. Aeth Benjamin gyda nhw er nad oedd Jacob, eu tad, yn hapus i'w weld yn mynd. Os nad oedd Benjamin yn mynd, byddai'n rhaid i Simeon aros yn y carchar!

Y tro hwn, roedd Joseff yn garedig wrthyn nhw ond ddywedodd e ddim pwy oedd e. Siaradodd Joseff â'i frodyr i gyd, yn enwedig Benjamin.

Llanwch y geiriau sydd ar goll.

Aethon nhw i'r A _ ___ _ i chwilio am fwy o fwyd.

Aethon nhw â B _ _ _ _ _ _ _ gyda nhw.

Cyn iddyn nhw gychwyn am adref, cuddiodd Joseff ei gwpan arian arbennig yn sach Benjamin. Ar ôl iddyn nhw deithio am dipyn, daeth swyddog Joseff ar eu hôl a'u cyhuddo o ddwyn y cwpan arian! Chwiliodd trwy eu sachau nhw i gyd a dod o hyd i'r cwpan yn sach Benjamin!

Aethon nhw nôl i'r ddinas. Roedden nhw'n poeni'n ofnadwy. Beth fyddai'n digwydd i Benjamin? A fyddai'n gorfod marw neu'n mynd yn gaethwas? Sut allen nhw fynd adref at eu tad heb Benjamin? Roedden nhw'n drist iawn. Roedden nhw'n siŵr fod Duw yn eu cosbi am werthu Joseff amser maith yn ôl.

Mae'r Beibl yn dweud:

**"Bydd eich pechod yn eich dal."**

**Numeri 32: 23. Lliwiwch y geiriau.**

Mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn deall hynny.

Enw

DARLLENWCH
Genesis 45: 1-28

*Mae'r stori yma'n sôn am:*
**Maddau i'n gilydd**

# Maddau a Newyddion Da.

Roedd y brodyr yn crefu ar Joseff i beidio â chosbi Benjamin. Dywedon nhw y byddai eu tad yn torri ei galon pe na bai Joseff yn dod adref. Gwelodd Joseff fod ei frodyr wedi newid – roedden nhw'n poeni am ei gilydd ac am eu tad erbyn hyn.

Daeth yr amser i ddweud wrthyn nhw pwy oedd e! Gofynnodd i bawb arall adael yr ystafell ac yna dywedodd wrth ei frodyr:

"Joseff ydw i"



## Lliwiwch y geiriau.

Doedden nhw ddim yn gallu credu eu clustiau! Roedd Joseff wedi maddau iddyn nhw am fod mor gas wrtho flynyddoedd yn ôl. Dywedodd mai Duw oedd wedi'i anfon i'r Aifft.

Dywedodd wrth ei frodyr am frysio adref â'r bwyd. Yna, roedden nhw i fod i bacio pob peth a dod yn ôl i'r Aifft i fyw. Roedden nhw i fod i ddod â'u tad, eu gwragedd, eu plant a'u hanifeiliaid

## Llanwch y bylchau.

Roedd Joseff wedi _ _ __ _ _ i'w frodyr.

Dywedodd Joseff wrthyn nhw am ddod â'u t _ _ i fyw i'r Aifft.

Mae Duw yn barod i faddau os gwnawn ni rywbeth drwg. Mae'n gallu gwneud hynny gan fod Iesu Grist wedi marw drosom ar y groes.

Enw

DARLLENWCH
Genesis 46: 1-34

*Mae'r stori yma'n sôn am:*
**Cynllun Duw ar gyfer ein bywyd ni.**

# Stori 4 Gyda'i gilydd yn yr Aifft.

Pan ddywedodd brodyr Joseff wrth eu tad fod Joseff yn dal yn fyw, a'i fod yn rheoli'r Aifft i gyd, roedd yn anodd gan yr hen wŷr eu credu. Ond pan welodd y wageni roedd Joseff wedi'u hanfon, roedd yn gwybod eu bod yn dweud y gwir.

## Llanwch y bylchau:

Anfonodd Joseff w _ _ _ _ _ i gario'i dad i'r A _ __ _ .

I ffwrdd â nhw i'r Aifft! Roedd yno dyrfa fawr o ddynion, merched, plant ac anifeiliaid!

Pan ddaethon nhw i Gosen, daeth Joseff yn ei gerbyd i gwrdd â nhw. Taflodd ei freichiau o gwmpas ei dad a llefain am amser hir!

Doedden nhw ddim wedi gweld ei gilydd ers 22 o flynyddoedd.

Clywodd y brenin Pharo eu bod nhw wedi cyrraedd. Rhoddodd groeso iddyn nhw a gadael iddyn nhw fyw yn Gosen, fel roedd Joseff wedi'i addo.

Dyna ddiwedd hapus i'r stori! Roedd Duw wedi trefnu bod popeth yn iawn. Roedd Joseff wedi trystio Duw ar hyd yr amser ac roedd cynllun Duw ar gyfer ei fywyd wedi dod yn wir. Bydd Duw yn fodlon gwneud yr un peth i ni os ydyn ni'n barod i'w drystio ac ufuddhau iddo.

## Lliwiwch y llun.



Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn



Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120